WIND PROSPECT LTD

COFNODION

Prosiect:	**Fferm Wynt Tirgwynt**
Teitl y Cyfarfod:	**Cyfarfod Grŵp Cyswllt Cymunedol (TIRGm080)**
Dyddiad/Amser:	**11eg Mai 2016; 19:00**
Lleoliad:	**Canolfan Gymunedol Carno, SY17 5LH**

Yn bresennol	Yn cynrychioli	Rôl
Mike Davis (MJD)	Wind Prospect Ltd (WPL)	Rheolwr Prosiect a Pheiriannydd y Perchennog
Emily Cheung (EC)	Awel Newydd Cyf	Perchennog a Rheolwr Prosiect
Sophy Fearnley-Whittingstall (SFW)	Awel Newydd Cyf	Rheolwr Cysylltiadau Cyhoeddus a Chymunedol
Arolygydd Gary Jones (GJ)	Heddlu Dyfed Powys	
Alun Phillips (AP)	Cyngor Cymuned Carno	
Gwyndaf Thomas (GT)	Cyngor Cymuned Carno	
Michael Jones (MJ)	Pwyllgor Canolfan Gymunedol Aberhafesb	
Cyng. Nigel Bowen (NB)	Cyngor Cymuned Castell Caereinion	
Phil Davies (PD)	Cyngor Cymuned Dwyriw	
Darryl Owen (DO)	Cyngor Cymuned Dwyriw	
Frances Buckingham (FB)	Cyngor Cymuned Llandysilio	
Robert Robinson (RR)	Cyngor Tref y Trallwng	
Cyng. Steve Kaye (SK)	Cyngor Tref y Trallwng	
Cyng. Estelle Bleivas (EB)	Cyngor Tref y Trallwng	
Nick Savage (NS)	Cyngor Cymuned Llanymynech Council	

1. Ymddiheuriadau
2. Cyflwyniadau
    - 2.1 Cyflwynodd holl aelodau'r gymuned eu hunain.
    - 2.2 Mae Sophy wedi ymuno â thîm Awel Newydd i reoli'r berthynas â'r cymunedau ac i ddosbarthu gwybodaeth.
3. Iechyd a Diogelwch
    - 3.1 Rhoddodd MJD a GT wybodaeth diogelwch am yr adeilad.
4. Strwythur y Prosiect – Cwmnïau
    - 4.1 Mae 3 phrif gontractwr i'r prosiect, Jones Brothers (gwaith sifil), Power Systems (gwaith trydanol), a Senvion (cyflenwr y tyrbinau gwynt)
    - 4.2 Mae Wind Prospect yn gweithredu fel Peiriannydd o dan y contract i Awel Newydd.
5. Strwythur Staff y Prosiect

5.1 Dangosodd MJD siart trefniadaeth y prosiect. Mae fersiwn sydd â manylion cysylltu ar gael a chytunwyd y byddai hwnnw o ddiddordeb i'r cymunedau oedd yn bresennol. **MJD i ddosbarthu siart trefniadaeth y prosiect sydd â manylion cysylltu perthnasol.**

6. Cynllunio

6.1 Mae cytundebau Adran 278 (Priffyrdd) i gynnal gwaith lledu ar lwybr mynediad y ffyrdd sirol (sef mannau cul [*pinch points*]) ar y gweill ac mae'n rhaid cael y cytundebau hyn cyn y gall y gwaith ddechrau.

6.2 Mae nifer o fannau cul eisoes wedi'u hadeiladu ac yn aros i Archwiliad Diogelwch Ffyrdd gael ei gwblhau cyn y gall y cyhoedd ddefnyddio'r rhain. Awgrymodd DO y byddai'n ddefnyddiol gwneud y rhain cyn gynted â phosibl gan eu bod o gymorth gyda'r traffig cerbydau nwyddau trwm (HGV) sy'n defnyddio'r ffordd ar hyn o bryd.

7. Gofynion priffyrdd

7.1 Tref y Trallwng

7.1.1 Roedd yr arolygon ar seleri/isloriau yn y Trallwng wedi dangos un gwagle gyferbyn â'r Royal Oak a oedd angen eglurhad pellach gan Gyngor Sir Powys.

7.2 Cefnffyrdd

7.2.1 Mae Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (NMWTRA) yn asesu strwythurau ar hyd y rhwydwaith cefnffyrdd.

7.3 Priffyrdd Powys

7.3.1 Mae strwythurau eraill ar hyd ffyrdd y sir wedi'u nodi a'u harolygu a chyfrifiadau manwl wedi'u rhoi i Gyngor Sir Powys. Bydd cyfarfod a gynhelir ar 12fed Mai yn penderfynu pa strwythurau fydd angen eu gwella cyn cludo'r tyrbinau.

7.3.2 Mae'r daith dreial wedi'i threfnu ar gyfer 30 Mehefin 2016. Gofynnodd SK a fyddai'n bosibl cynyddu nifer y cerbydau yn y confoi i 3 cherbyd llwyth annormal (AIL). Eglurodd EC er bod Heddlu Dyfed Powys ar hyn o bryd yn gyfforddus yn gwneud hyn, nid yw heddlu Swydd Gaer ar hyn o bryd yn fodlon cytuno i godi nifer y cerbydau llwythi annormal mewn un confoi i fod yn fwy na 2 gerbyd. Ymhellach, roedd trafodaethau ar y gweill â heddlu Swydd Gaer i gael ail gonfoi ar ôl 7pm drwy'r Trallwng. Cydnabu EC fod hyn o ddiddordeb er mwyn lleihau nifer y confois i'r cymunedau a'r prosiect fel ei gilydd.

7.3.3 Gofynnodd FB o ble fyddai'r daith dreial yn cychwyn. Cadarnhaodd MJD mai o Goole fyddai hynny. Ychwanegodd EC fod y daith dreial yn gymaint o daith brawf i'r heddlu a rheolaeth draffig ag yr oedd i roi'r llwybr ar brawf i gydrannau'r tyrbin.

7.3.4 Holodd EB faint o amser oedi a ddisgwylir i gerbydau sy'n dod i gwrdd â'r confoi. Disgwyliai GJ y byddai ond yn ychydig o funudau. I gerbydau nwyddau trwm byddai'r amser yn hirach o bosibl gan y byddai'n debygol y byddant yn cael eu tynnu mewn i lefydd addas er mwyn rhoi modd i'r confoi fynd heibio. Byddai hebryngwyr yr heddlu ar feiciau modur yn teithio ychydig filltiroedd o flaen y confoi a byddai cerbydau bychain yn cael eu tynnu i mewn yn ôl yr angen tua hanner milltir o'r confoi.

7.3.5 Gofynnodd DO a ellid cludo'r tyrbinau yn ystod y nos. Dywedodd GJ y byddai teithio yn y tywyllwch yn ormod o risg i Heddlu Dyfed Powys.

7.3.6 Holodd RR pa oedi a ddisgwylid i drigolion a gwasanaethau nad ydynt yn rhai brys, a sut byddai hyn yn cael ei leihau cyn lleied â phosibl; yn enwedig o gwmpas cylchdro Sgwâr y Gigfran/Raven Square lle gellid dal y confoi i adael i draffig fynd heibio. Nododd GJ y byddai'r tîm hebrwng o flaen y confoi yn rheoli pob traffig i fynd heibio, a gallai hynny ganiatáu i'r cerbydau hyn fynd heibio a rhybuddio trigolion fod y confoi ar y ffordd.

7.3.7 Gofynnodd RR a ellid hysbysu'r wybodaeth ddiweddaraf am amseroedd cludo petai oedi mawr neu ganslo teithiau cludo, er mwyn i bobl yr effeithir arnynt fedru cynllunio eu diwrnodau. Eglurodd MJD yn gyffredinol y byddai hysbysebion yn y papurau newydd a'r newyddion diweddaraf ar wefan y prosiect. Ni fyddai unrhyw dyrbinau yn cael eu cludo yn ystod y Sioe Frenhinol na Gŵyl y Banc mis Awst. Ychwanegodd SFW fod nodyn briffio wrthi'n cael ei lunio i'w ddosbarthu i'r cynghorau ac arno wybodaeth petai'r cynghorau eu hunain yn derbyn cwestiynau yn uniongyrchol. **SFW i ymchwilio sut orau fyddai cyfleu'r diweddaraf am y teithiau cludo'r tyrbinau.**

7.3.8 Gofynnodd FB a oedd amcangyfrif o'r amser y byddai'n ei gymryd i fynd drwy'r gyffordd Mile End yng Nghroesoswallt. Dywedodd MJD fod yr wybodaeth hon yn y model ac nad oedd wrth law yn ystod y cyfarfod. Gellid darparu mwy o fanylder ar gais a dywedodd MJD y byddai modd deall yr amseroedd yn well ar ôl y daith dreial. Nododd FB y byddai'n dderbyniol cael y wybodaeth hon ar ôl y daith dreial a chyn i'r tyrbinau eu hunain cael eu cludo.

8. Trosolwg o'r Diweddaraf am y Prosiect

8.1 Rhoddodd MJD drosolwg manwl o gerrig milltir y prosiect.

8.2 Disgwylir y bydd cludo'r tyrbinau i'r safle yn dechrau ar ddiwedd Gorffennaf ac yn parhau hyd at fis Medi. Mae tîm y prosiect yn gweithio gyda'r heddlu, cyflenwr y

tyrbinau a'r cludwr i gael cyfnod cludo sydd mor fyr â phosibl, ac mae'r opsiynau yn cael eu harchwilio.

9. Cynnydd

9.1 Y Brif Fferm Wynt

9.1.1 Mae'r traciau mynediad bron â'u cwblhau i'w safon orffenedig yn hanner deheuol y safle.

9.1.2 Ni cheir gwneud gwaith adeiladu ar ran ogleddol y safle oherwydd y cyfyngiadau yn sgil adar (y gylfinir) yn bridio fel yr amlinellwyd yn y caniatâd cynllunio.

9.1.3 Mae angen llenwi sylfeini dau dyrbin yn y de, a 3 yn dal ar ôl yn y gogledd (i'w gorffen ym mis Awst ar ôl codi'r cyfyngiadau yn sgil adar yn bridio).

9.1.4 Ar hyn o bryd sylwyd ar un pâr o'r gylfinir yn nythu ac mae dau aderyn sengl ar y safle gogleddol.

9.2 Is-orsaf

9.2.1 Mae'r is-orsaf yng Ngharno yn dod yn ei blaen yn dda, a'r sylfeini ar gyfer dargyfeirio llinellau uwchben a'r offer yn barod i Scottish Power osod arnynt.

9.2.2 Bydd y prif gebl foltedd uchel sy'n rhedeg o'r fferm wynt i Garno yn cael ei gosod yn ystod Mehefin.

9.3 Mannau Cyfyng ar hyd llwybr mynediad y llwythi annormal

9.3.1 Mae'r gwaith yn dod yn ei flaen yn barod at ddyddiad y daith dreial ar 30 Mehefin.

9.3.2 Caiff y rhain eu hadeiladu drwy ddefnyddio goleuadau traffig neu gau ffyrdd (gyda dargyfeirio ar waith).

9.3.3 Mae rhaglen ddiwygiedig y mannau cyfyng wedi'u hatodi i'r cofnodion.

10. Gwefan

10.1 Mae gwefan wedi'i sefydlu ac mae i'w gweld yn http://www.tirgwyntwindfarmclg.co.uk/

10.2 Mae tîm y prosiect wrthi'n trefnu cyfieithu'r wefan i'r Gymraeg.

11. Cronfa Budd Cymunedol

11.1 Dywedodd EC ei bod wedi derbyn gwybodaeth ynghylch sut oedd cronfa Carno yn cael ei rheoli a'i bod wedi trafod â'r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru (Community Foundation in Wales) ynghylch rheoli Cronfa Budd Cymunedol Tirgwynt.

11.2 Nododd MJ nad oedd wedi cael profiad da â'r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru gan ei fod yn Gaerdydd-ganolog a dywedodd NB y byddai'n well ganddynt i'r gronfa gael ei rheoli'n fwy lleol.

11.3 Awgrymodd GT y dylid cysylltu yn lle hynny â "Windfall" o Fachynlleth gan eu bod hwy ar hyn o bryd yn rheoli cronfeydd ffermydd gwynt Sir Drefaldwyn. Nododd GT na fyddai Carno yn fodlon rheoli'r gronfa ehangach.

11.4 Nododd PD fod Cyngor Cymuned Dwyriw hefyd yn rheoli cyllid drwy gyfrwng tebyg i Carno a gellid defnyddio hwn i reoli'r cyllid a roddir iddynt hwy.

11.5 Dywedodd SFW ei bod yn bwysig deall gweinyddiaeth y gronfa cyn penderfynu pa gyfrwng i'w ddefnyddio. Mae'n rhaid i'r gronfa fod yn glir a thryloyw a chyflawni gofynion adrodd Awel Newydd. Awgrymodd FB y dylid llunio cynnig ar gyfer y cyfarfod nesaf i'w gyflwyno gerbron y grŵp cyswllt cymunedol. **SFW i lunio cynnig ar reoli'r gronfa budd cymunedol i'w gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y grŵp cyswllt cymunedol.**

11.6 Ailadroddodd RR fod Cyngor Tref y Trallwng wedi cytuno'n unfrydol nad oedd Cyngor Tref y Trallwng am fod yn rhan o'r gronfa budd cymunedol.

12. Unrhyw Faterion Eraill

12.1 Cododd MJD y mater bod rhywfaint o sylw gwael wedi bod yn wasg ynghylch Tirgwynt a bod erthygl ddiweddar yn y *County Times* wedi cynnwys gwallau ffeithiol. Dywedodd SK os byddai'r daith dreial yn mynd yn iawn, yna dylai bod rheswm dros gael sylw da yn lle hynny.

12.2 Nododd RR mai prif bryder Cyngor Tref y Trallwng yw y byddai twristiaid yn dechrau osgoi'r Trallwng yn gyfan gwbl ac yn rhoi pwysau ar drefi a rhwydweithiau ffyrdd eraill os bydd y broses cludo'r tyrbinau yn achosi problemau.

12.3 Gofynnodd SFW a fyddai Cyngor Tref y Trallwng yn dymuno i aelod o dîm prosiect Tirgwynt fynychu'r cyfarfod cynllunio nesaf ar 8fed Mehefin. **SFW i gydlynu ag RR i gadarnhau.**

12.4 Nododd GJ y byddai'r trosglwyddo rhwng heddluoedd Swydd Gaer a Dyfed Powys yn broses ddeinamig a llyfn ar slipffordd Rhostyllen. Byddai'n rhaid osgoi pryderon am draffig prynhawniau Gwener gan y gwyddys fod hwn yn gyfnod prysur.

13. Dyddiad, Amser a Lleoliad y Cyfarfod Nesaf

13.1 Cyfarfod nesaf Awst 2016 i'r holl aelodau, 19:00 mewn lleoliad sydd i'w gadarnhau.

13.2 Cyfarfod am y diweddaraf am amserlen a llwybr cludo'r tyrbinau, 6ed Gorffennaf (ar ôl y daith dreial) i'w gynnal yn y Drenewydd (union leoliad ac amser i'w cadarnhau). **MJD i gydlynu ag RR i gadarnhau lleoliad addas.**

ID	Name	Dur	Start	Finish	Percent Complete	Scheduled Cost	As (F	Calendar
1	**Ti'r Gwynt Wind Farm**	**145(**	**11 Jan**	**01 Aug**	**0.00%**	**0.00**		**Project**
110	**Offsite Road Widening Works**	**106d**	**11 Jan**	**06 Jun 16**	**0.00%**	**0.00**		**Project**
215	**3 Way lights**	**18d**	**01 Mar**	**24 Mar 16**	**0.00%**	**0.00**		**Project**
213	160 - B4385 & A485 Junction	17d	01 Mar 16	23 Mar 16	0.00%	0.00		Project
214	Powys Highways Approval - Sign off	1d	24 Mar 16	24 Mar 16	0.00%	0.00		Project
218	**Pont Pren Dano - Bypass**	**81d**	**12 Feb**	**03 Jun 16**	**0.00%**	**0.00**		**Project**
242	Site Clearance	5d	12 Feb 16	18 Feb 16	0.00%	0.00		Project
241	Site Investigation	3d	19 Feb 16	23 Feb 16	0.00%	0.00		Project
236	Design	30d	12 Feb 16	24 Mar 16	0.00%	0.00		Project
237	Land Drainage Consent	0d	24 Mar 16	24 Mar 16	0.00%	0.00		Project
238	Procuremenent & Fabrication of	30d	25 Apr 16	03 Jun 16	0.00%	0.00		Project
243	Installation of Goal Posts	2d	31 Mar 16	01 Apr 16	0.00%	0.00		Project
239	Track Construction	24d	04 Apr 16	05 May 16	0.00%	0.00		Project
240	**Bridge Construction**	**31d**	**04 May**	**15 Jun 16**	**0.00%**	**0.00**		**Project**
245	Installation of Temporary sheet piles	2d	04 May 16	05 May 16	0.00%	0.00		Project
244	Construction of Abutments	20d	06 May 16	02 Jun 16	0.00%	0.00		Project
251	Place Order for Bridge	0d	05 May 16	05 May 16	0.00%	0.00		Project
252	Lead In Time	25d	05 May 16	08 Jun 16	0.00%	0.00		Project
246	Installation of Bridge Deck	5d	09 Jun 16	15 Jun 16	0.00%	0.00		Project
224	**Submit Diversion Notices**	**0d**	**16 Feb**	**16 Feb 16**	**0.00%**	**0.00**		**Project**
235	**Diversion Lead in**	**40d**	**16 Feb**	**11 Apr 16**	**0.00%**	**0.00**		**Project**
229	**2 Way lights**	**60d**	**29 Mar**	**20 Jun 16**	**0.00%**	**0.00**		**Project**
230	110 - Nr Tyn-y-Coed	18d	29 Mar 16	21 Apr 16	0.00%	0.00		Project
231	Junctions 12A for Pont pren Dano	4d	28 Apr 16	03 May 16	0.00%	0.00		Project
232	Junctions 12B for Pont pren Dano	4d	09 May 16	12 May 16	0.00%	0.00		Project
234	10 - Lower Cil Haul	27d	13 May 16	20 Jun 16	0.00%	0.00		Project
248	Pinch Point 100	7d	30 May 16	07 Jun 16	0.00%	0.00		Project
219	**Diversion - PHASE 1 - Dwg**	**32d**	**18 Apr**	**31 May 16**	**0.00%**	**0.00**		**Project**
247	15 - B4385 Junction	9d	18 Apr 16	28 Apr 16	0.00%	0.00		Project
115	20 - Nr Ty Gwyn	5d	27 Apr 16	03 May 16	0.00%	0.00		Project
116	30 - Nr Rhos Fawr	6d	27 Apr 16	04 May 16	0.00%	0.00		Project
117	35 - Bwthyn Graig	4d	05 May 16	10 May 16	0.00%	0.00		Project
118	40+45+50 - Nr Yr Helyg	7d	10 May 16	18 May 16	0.00%	0.00		Project
119	60+65+70 - Nr Pentre Coed	9d	19 May 16	31 May 16	0.00%	0.00		Project
220	**Diversion - PHASE 2 - Dwg**	**18d**	**01 Jun**	**24 Jun 16**	**0.00%**	**0.00**		**Project**
120	80 - Groesfer	5d	01 Jun 16	07 Jun 16	0.00%	0.00		Project
121	90 - Fron Wenallt	10d	08 Jun 16	21 Jun 16	0.00%	0.00		Project
249	95	3d	22 Jun 16	24 Jun 16	0.00%	0.00		Project
250	**WelshPool High St Works**	**10d**	**16 May**	**27 May 16**	**0.00%**	**0.00**		**Project**
222	**Senvion Trial Run**	**0d**	**27 Jun**	**27 Jun 16**	**0.00%**	**0.00**		**Project**
223	**1st Delivery by Senvion**	**0d**	**01 Aug**	**01 Aug 16**	**0.00%**	**0.00**		**Project**